



CLICK HERE!

Sut i Ysgrifennu Stori Dda

Nod:

Creu ceisiadau YRE
sydd wedi'u
hysgrifennu'n dda.

1
AWR

AMCANION:

- Annog disgyblion i ysgrifennu mewn dull newyddiadurol
- Deall beth sydd angen ei gynnwys mewn erthygl er mwyn creu cais o ansawdd dda
- Gwerthuswch eu gwaith a'u syniadau'n feirniadol
- Dysgu sgiliau cyfweld

GWEITHGAREDD

CYFLWYNIAD I'R GWEITHDY (8 munud)

Cyflwyno'r sesiwn.

METHODOLEG YRE

- ★ Ymchwilio
- ★ Awgrymu atebion
- ★ Adrodd yn ôl
- ★ Lledaenu'r neges (i o leiaf tri ffynhonnell e.e. Twitter, gwefan yr ysgol, arddangosfa/gwasanaeth).



GWEITHGAREDD 1:

DANGOSWCH DIWTORIAL YSGRIFENNU YRE (7 munud)

Gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar y ffilm a gwneud nodiadau ar bob un o'r camau.

Gall ddefnyddio'r nodiadau hyn yn y dyfodol i atgoffa'r disgyblion o'r camau pwysig. Bydd y nodiadau hyn yn cael eu defnyddio mewn gweithgaredd arall hefyd.

Cymerwch bum munud i drafod eich nodiadau gyda phartner a gwnewch yn siwr eich bod chi wedi nodi cymaint o bwyntiau â phosibl o'r fideo

Pa gyngor craff oedd yn edrych yn bwysig i chi? - (efallai rhywbeth nad oeddech chi wedi meddwl amdano fe o'r blaen)



PWYNTIAU DYSGU ALLWEDDOL

GOSOD FFURF A STRWYTHUR Y SESIWN.

DILYNWCH BEDWAR CAM Y BROSES YRE.

Bydd angen i bob disgybl ymchwilio ac astudio pwnc gan ddefnyddio methodoleg YRE os ydynt eisiau cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Ar ôl gwneud yr ymchwil gall y disgyblion ddewis sut maen nhw eisiau codi ymwybyddiaeth o'r pwnc trwy dynnu llun, ysgrifennu neu drwy gynhyrchu ffilm.

Pwnc – Ydych chi'n teimlo'n angerddol am rywbeth? Gwnewch e'n lleol ac yn berthnasol i chi a'ch cymuned

Ewch yn Fyd-Eang – yn berthnasol i eraill o gwmpas y byd, goblygiadau byd-eang

Ymchwiliwch – ymgyrchoedd lleol, beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill?

Pwy, Beth, Ble, Pryd, Sut, Pam – angen cynnwys y rhain yn eich erthygl

Ysgrifennwch adroddiad nid darn mynegu barn - dywedwch stori ffeithiol, diduedd, sy'n cynnwys safbwyntiau gwahanol

Ysgrifennwch baragraff agoriadol da – byr a chryno, beth yw agwedd fwyaf bwysig yr adroddiad

Cofiwch ddyfynnu a chynnwys cyfweiliadau – Meddyliwch yn ofalus am bobl i gynnwys - athrawon, disgyblion arweinwyr yn y gymuned, arbenigwyr

Teitl – Gwnewch hyn ar y diwedd achos dylai'r teitl ddod o'r erthygl yn hytrach na'r ffordd arall. Byddwch yn gryno, peidiwch â bod yn ddiflas

Lluniau a phenawdau – rhaid bod y rhain yn berthnasol ac yn cyfrannu at yr erthygl

Golygu – gwirio sillafu, gramadeg, ffurf brawddegau ac amserau'r ferf, gwirio ffeithiau - gwnewch e'n iawn, rydych chi'n cynrychioli'ch cymuned, ydy'r erthygl yn gytbwys - a oes dwy ochr i'r stori?

GWEITHGAREDD

SGILIAU CYFWELD (2 funud)

Mae gwneud cyfweiliad yn rhan bwysig iawn o waith newyddiadurwr. Gofynnwch i'r disgyblion pam eu bod nhw'n meddwl bod hyn yn bwysig a pham fod angen i newyddiadurwyr gyfweled â phobl.

GWEITHGAREDD 2:

GWEITHGAREDD SGILIAU CYFWELD (10 munud)

Gweithiwrch mewn grwpiau o dri a meddyliwch am dri pheth bydd angen i chi eu gwneud cyn gwneud cyfweiliad. Beth sy'n gwneud cyfweledwr da, meddyliwch am sut ydych chi'n gofyn cwestiynau, defnydd o iaith y corff ac yn y blaen.

Dylai'r athro hwyluso'r drafodaeth ac efallai bydd angen cyfeirio at y pwyntiau dysgu allweddol.

PARATOI CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD (5 munud)

Cymerwch ychydig o funudau yn eich grwpiau i baratoi rhai cwestiynau ar gyfer cyfweiliad ar blastigau untro. Meddyliwch am rai cwestiynau i'w gofyn. Gallai'r athro cyfeirio at y tri chynghor craff olaf yn y pwyntiau dysgu allweddol os oes angen.

GWEITHGAREDD 3:

CHWARAE RÔL (10 munud)

Gofynnwch bob aelod o'r grŵp i [ddewis rôl](#) (naill ai A, B neu C).

A = cyfweledwr, B = cyfweledai, C = sylwebydd

Defnyddiwch y daflen gyfarwyddiadau a chymerwch bum munud i gynnal cyfweiliad. Rhwng adborth i'ch grŵp gan ddilyn y cyfarwyddiadau.

GWEITHGAREDD 4:

ASESU'R ERTHYGLAU (15 munud)

Arhoswch yn eich grwpiau o dri a defnyddiwch y rhestr gyngor craff i asesu [Erthygl Un](#) ac [Erthygl Dau](#). (Gallwch weld yr erthyglau drwy glicio ar y cyflwyniad neu gallwch eu hargraffu)

- Ydy'r erthyglau wedi cynnwys rhai o'r cynghorion craff?

- Sut allwn ni wella'r erthyglau?

- Adborth i weddill y dosbarth.

Dywedwch wrth y disgyblion am y [gystadleuaeth YRE](#).

PWYNTIAU DYSGU ALLWEDDOL



Mae newyddiadurwyr yn cyfweled pobl er mwyn creu sgwrs a darganfod gwybodaeth newydd.

Penderfynwch pwy ydych chi eisiau cyfweled - ydyn nhw'n berthnasol i'r erthygl

Ymchwiliwch – gwnewch yn siwr eich bod chi'n gwybod pwy ydyn nhw, beth maen nhw'n gwneud a sut maen nhw'n berthnasol i'ch erthygl. Mae'n dangos parch tuag atyn nhw.

Siaradwch â phobl - wrth siarad â phobl gallwch greu sgwrs yn hytrach na chael atebion parod i gwestiynau trwy e-bost.



Torrwch yr îâ – gwnewch e'n berthnasol e.e. Defnyddiwch eich ymchwil - Gwelais i eich bod chi wedi rhoi sylw ar ... mewn erthygl papur newydd, stori newyddion - Rwy'n credu eich bod chi wedi bod yn fy ysgol.

Gofynnwch gwestiynau agored – rydych chi'n cael llawer mwy o wybodaeth drwy ofyn cwestiynau sy'n defnyddio sut, pam, dywedwch wrtha i am ..

Gwrandewch – peidiwch â thorri ar draws, byddwch yn dawel, os ydych chi'n cadw'n dawel bydd y person arall yn siarad

Byddwch yn chwilfrydig– dangoswch ddiddordeb ym mhopeth, defnyddiwch iaith eich corff i ddangos diddordeb -gwnewch a dangoswch fynegiant calonogol ar eich wyneb.



Ymarfer cynnal cyfweiliad mewn sefyllfa ddiogel.

Atgyfnerthu Gweithgaredd 1.



Edrychwch ar ein canllaw i Gohebwyrfanc yr Amgylchedd yng Nghymru. Bydd y canllaw yn rhoi'r holl wybodaeth sydd eu hangen arnoch i greu cais YRE gwych.

GWEITHGAREDDAU YMESTYNNOL

SESIWN CYNLLUNIO - Sbwriel & Gwastraff

- ★ Dywedwch wrth y disgyblion bod angen iddynt adnabod ac arsylwi ar un mater yn ymwneud â rheoli gwastraff sy'n agos i'w cartrefu neu eu hysgolion. Gallan nhw wneud hyn mewn grwpiau neu yn unigol. Gall rai o'r materion gynnwys:
 - Sbwriel yn eu hardal leol - pa lefydd sydd â phroblem sbwriel, e.e. llwybrau i ysgolion, wrth ochr yr heol, afonydd, traethau, mathau o sbwriel - plastig, caniau, papurau melysion, cwpanau coffi untro
 - Gwastraff bwyd - faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu yn y cartref neu yn yr ysgol, sut mae pobl yn cael gwared ar ei wastraff.
- ★ Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi eu arsylwadau gyda'r bwriad o ysgrifennu erthygl papur newydd ar y mater e.e. Ymchwiliwch i mewn i gasgliadau gwastraff bwyd yr awdurdod lleol, a oes gwasanaeth o'r fath ganddynt, pa mor rhydd yw i'w ddefnyddio?
- ★ Adnabod adnoddau a fydd yn cynorthwyo'r disgyblion i ddarganfod mwy o wybodaeth e.e. gwefannau perthnasol, ymgyrchoedd lleol. Beth yw'r arferion gorau mewn trefi, dinasoedd a gwledydd eraill?
- ★ Adnabod tri pherson y gellid eu cyfwrdd i ddarganfod mwy am y mater neu er mwyn dod o hyd i atebion posibl. Cofiwch gynnwys pobl sydd â safbwyntiau gwahanol e.e. swyddog gwastraff yr awdurdod lleol, staff y gegin.
- ★ Meddyliwch am atebion i'r mater - sut y gellid lleihau'r gwastraff neu waredu'r gwastraff yn fwy cynaliadwy e.e. Os oes sbwriel ar lwybrau i'r ysgolion, felly dylai'r ysgolion hyn gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r broblem. Os oes llawer o wastraff bwyd a oes gormod o fwyd yn cael ei brynu? Ydy dognau bwyd yn rhy fawr, ac ydy'r bwyd yn cael ei gompostio?
- ★ Pwy fyddai â diddordeb mewn darllen y stori? Meddyliwch ble fydd y stori yn cael ei ddarllen, e.e. ar y cyfryngau cymdeithasol, blog, cylchlythyr ac ati.

SESIWN YSGRIFENNU - Sbwriel & Gwastraff

Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu hymchwiliad a'u cyfweiliadau a chofnodi eu darganfyddiadau mewn dull newyddiadurol fel petai eu bod nhw'n ysgrifennu erthygl i bapur newydd. Gall wneud y dasg hon yn y dosbarth neu fel gwaith cartref. Gellid gwneud hyn mewn grwpiau neu'n unigol.

Rhannwch y disgyblion i mewn i grwpiau o 3 neu 4 a gofynnwch iddyn nhw werthuso eu herthyglau gan gofio'r cynghorion craff a ddysgwyd yng Ngweithgaredd 1. Dylai'r disgyblion adnabod o leiaf 2 argymhelliad ar gyfer pob erthygl.